Penderfyniad

# Asesiad Dyluniad Generig

# SMR-300 Holtec International Cam 1 (Cychwyn): Datganiad

## Yn berthnasol i Gymru a Lloegr

Cynnwys


1. Proses yr Asesiad Dyluniad Generig
2. Amserlen arfaethedig
3. Cyflwyniadau gwybodaeth


Mae'r datganiad hwn yn amlinellu ein canfyddiadau yn dilyn Cam 1 (Cychwyn) yr Asesiad Dyluniad Generig o ddyluniad gorsaf ynni niwclear Holtec SMR-300 (adweithydd modiwlar bach).

Holtec International yw'r ‘Ymgeisydd’ a gyflwynodd y cynllun hwn ar gyfer Asesiad Dyluniad Generig. Mae’r Asesiad Dyluniad Generig yn cael ei reoli gan Holtec Britain Limited, is-gwmni DU sy’n eiddo’n gyfan gwbl i Holtec International. Mae’r rheoleiddwyr amgylcheddol – Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru – yn gweithio’n agos gyda’r Swyddfa Reoleiddio Niwclear ar Asesiad Dyluniad Generig.

Mae’r dyluniad Holtec SMR-300 yn adweithydd dŵr dan wasgedd gydag allbwn trydanol o 300 megawat o drydan. Mae'r dyluniad wedi newid yn ystod yr Asesiad Dyluniad Generig o'r SMR-160 i'r SMR-300 o ganlyniad i addasiad. Yr SMR-160 oedd testun cais Asesiad Dyluniad Generig Holtec.

## 1. Proses yr Asesiad Dyluniad Generig

Yn ystod Asesiad Dyluniad Generig, mae'r rheoleiddwyr amgylcheddol yn asesu a yw agweddau amgylcheddol dyluniad adweithydd newydd yn dderbyniol. Gwnawn

hyn cyn i unrhyw ddatblygwr wneud cais i adeiladu a gweithredu'r dyluniad ar safle penodol. Mae Asesiad Dyluniad Generig yn galluogi'r rheoleiddwyr i gymryd rhan mewn cam cynnar yn y dyluniad pan allant gael y dylanwad mwyaf.

Yr amcanion ar gyfer Cam 1 yw cael yr Ymgeisydd ac Asiantaeth yr Amgylchedd i gytuno ar y canlynol:

- cwmpas yr Asesiad Dyluniad Generig
- sut y bydd yr Ymgeisydd yn dogfennu ei achos amgylcheddol ac yn ei gyflwyno i'w asesu yn ystod proses yr Asesiad Dyluniad Generig
- sut y bydd yr Ymgeisydd yn mynd i'r afael ag unrhyw fylchau o ran bodloni gofynion rheoleiddiol, y disgwyliadau y mae wedi'u nodi, a'i gynllun ar gyfer y gwaith hwn
- y trefniadau y mae'r Ymgeisydd wedi'u rhoi ar waith i gyflawni'r Asesiad Dyluniad Generig
- yr amserlen a'r rhaglen gysylltiedig ar gyfer camau dilynol, gan gynnwys cynlluniau ar gyfer cyflwyniadau a datblygu gwefan yr Ymgeisydd a'r broses sylwadau yn barod ar gyfer Cam 2 (Asesiad Sylfaenol)

Dechreuodd y rheoleiddwyr amgylcheddol Gam 1 yr Asesiad Dyluniad Generig ar gyfer yr Holtec SMR-300 ym mis Hydref 2023 a pharhaodd am ddeg mis.

Ar ddiwedd Cam 1, daethom i'r casgliad canlynol:

- Mae Holtec International wedi cwblhau holl elfennau Cam 1 sydd eu hangen i fynd i Gam 2 yr Asesiad Dyluniad Generig
- Mae gan y rheoleiddwyr amgylcheddol a Holtec International adnoddau digonol ar waith ac maent yn barod i fynd i Gam 2

Mae'r rheoleiddwyr amgylcheddol wedi cytuno â Holtec International, felly, yn dilyn y broses o adolygiad parodrwydd a chytundeb bwrdd Asiantaeth yr Amgylchedd, y gall Cam 2 ddechrau ym mis Awst 2024.

Wrth ddod i'r dyfarniad hwn, mae'r rheoleiddwyr amgylcheddol wedi ymgysylltu'n helaeth â Holtec International a'r Swyddfa Reoleiddio Niwclear i adolygu addasrwydd yr holl wybodaeth berthnasol a ddarparwyd (cyflwyniadau) yn ystod Cam 1.

Mae'r rheoleiddwyr wedi cytuno bod cwmpas yr Asesiad Dyluniad Generig yn briodol. Mae Holtec International wedi darparu digon o wybodaeth a manylebau swyddogaethol ar gyfer y dyluniad fel y gall gynnal Asesiad Dyluniad Generig ystyrlon.

Mae Holtec International wedi cadarnhau ei fod yn ceisio cwblhau dau gam o Asesiad Dyluniad Generig, gyda Datganiad Cam 2 i'w gyflwyno ar ddiwedd Cam 2.

# 2. Amserlen arfaethedig

Yr amserlenni arfaethedig ar gyfer yr Asesiad Dyluniad Generig hwn yw cychwyn ar Gam 2 ym mis Awst 2024, ac mae'r rheoleiddwyr amgylcheddol wedi cytuno i hyn. Nod Holtec International yw cwblhau Cam 2 ym mis Hydref 2025.

# 3. Cyflwyniadau gwybodaeth

Mae Holtec International wedi darparu cynlluniau cwmpas a chyflwyno ar gyfer pob pwnc y bydd y rheoleiddwyr amgylcheddol yn ei asesu yng Ngham 2.Rydym wedi trafod y cynlluniau hyn gyda Holtec International ac rydym o'r farn eu bod yn ddigonol i gynnal asesiad ystyrlon.

Rydym wedi cytuno ar yr amserlenni cyflwyno ar gyfer pob pwnc. Fodd bynnag, gall y cynlluniau hyn newid, a bydd y rheoleiddwyr yn parhau i drafod amserlen cyflwyniadau Cam 2 gyda Holtec International. Mae Holtec International hefyd wedi gosod strwythur derbyniol ar gyfer y cyflwyniadau sy'n rhan o'r achos amgylcheddol.

Mae trefniadau rhyngwyneb ar waith sy'n nodi sut y bydd Holtec International yn cyflwyno gwybodaeth a sut y bydd y rheoleiddwyr yn ei holrhain.

Mae'r trefniadau rhyngwyneb hefyd yn cynnwys gohebiaeth a chyfarfodydd, a sut y bydd ymholiadau rheoleiddiol, arsylwadau rheoleiddiol a materion rheoleiddiol yn cael eu codi a'u holrhain.

Mae'r cyflwyniadau a ddarparwyd gan Holtec International yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r holl ofynion gwybodaeth a nodir yn ein Canllawiau ar gyfer Ymgeiswyr ar gyfer Cam 1.

Mae Holtec International wedi nodi sut y bydd yn rheoli'r broses sylwadau ac yn sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd ar wefan yn ystod Cam 2. Rydym wedi cytuno bod y trefniadau hyn yn addas ac y byddant yn barod ar gyfer dechrau Cam 2.

Mae'r adroddiad (Asesiad Dyluniad Generig SMR-300 Holtec International Cam 1 (Cychwyn): Adroddiad Cryno) yn nodi'n fanylach y gweithgareddau a gynhaliwyd yn ystod Cam 1 a barn y rheoleiddwyr ar bynciau perthnasol.